*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(5)(h) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

---

# 2024 Rhif (Cy. )

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ("Deddf 2023") yn cydgrynhoi'r brif ddeddfwriaeth ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae Deddf 2023 yn ffurfio rhan o god o gyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Y prif Ddeddfau a ddygwyd ynghyd yn yr ymarfer cydgrynhoi hwnnw yw Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion Hynafol 1953 (p. 49), Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p. 46), Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p. 9) ("Deddf 1990") a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (dccc 4).

Gwnaeth Atodlen 13 i Ddeddf 2023 fân newidiadau a newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae rheoliad 3 yn mewnosod yn Atodlen 13 newid canlyniadol i Ddeddf Harbyrau 1964.

Mae rheoliad 4 yn hepgor darpariaeth nad yw'n ofynnol.

Gwnaeth Atodlen 13 i Ddeddf 2023 newidiadau hefyd i Ddeddf 1990. Ers hynny, mae Deddf 1990 wedi cael ei diwygio ymhellach gan Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023. Mae rheoliadau 5 i 21 yn gwneud diwygiadau pellach i Atodlen 13 i Ddeddf 2023 yng ngoleuni'r diwygiadau pellach hynny a wnaed gan

Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023. Mae’r diwygiadau yn cynnwys diddymiadau.

Mae Atodlen 14 i Ddeddf 2023 yn gwneud darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed. Mae rheoliad 22 yn gwneud arbediad pellach.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 209(5)(h) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U  D R A F F T

# 2024 Rhif (Cy. )

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *3 Tachwedd 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 211(3) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 209(5)(h) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Tachwedd 2024.

---

(**1**) 2023 dsc 3.

**Darpariaeth ganlyniadol ac arbediad**

**2.** Mae Atodlen 13 i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**3.** Ar ôl paragraff 9, mewnosoder—

"*Deddf Harbyrau 1964 (p. 40)*

**9A.** Yn Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964, ym mharagraff 1, yn y diffiniad o "sensitive area", ym mharagraff (h), ar y diwedd mewnosoder "or section 3 of the Historic Environment (Wales) Act 2023"."

**4.** Hepgorer paragraff 73.

**5.** Ar ôl paragraff 106, mewnosoder—

"**106A.** Yn adran 17(4), hepgorer "in relation to England"."

**6.** Yn lle paragraff 116, rhodder—

"**116.** Hepgorer adran 29."

**7.** Ar ôl paragraff 116, mewnosoder—

"**116A.** Yn adran 30—

(a) yn is-adran (1)—

(i) hepgorer paragraff (c);

(ii) yn y geiriau ar ôl y paragraffau, yn lle "those sections" rhodder "section 28";

(b) yn is-adran (2), hepgorer "or 29"."

**8.** Yn lle paragraff 117, rhodder—

"**117.** Yn adran 31—

(a) yn is-adran (2), yn lle "28, 28B, 29, 44AC and 44D" rhodder "28 and 44AC";

(b) yn is-adran (4), yn lle "sections 28 and 29" rhodder "section 28"."

**9.** Ar ôl paragraff 122, mewnosoder—

"**122A.** Yn adran 44AA(1) ac yn y pennawd o'i blaen, hepgorer "in England" yn y ddau le y mae'n digwydd.

**122B.** Ym mhennawd adran 44AB, hepgorer "in England".

**122C.** Ym mhennawd adran 44AC, hepgorer "in England"."

**10.** Ym mharagraff 124, o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

"(za) yn is-adran (1A), hepgorer "in England";".

**11.** Yn lle paragraff 130, rhodder—

“**130.** Yn adran 54—

(a) yn is-adran (2)—

(i) ym mharagraff (a), hepgorer “if the building is in England,”;

(ii) hepgorer paragraff (b) a’r “or” o’i flaen;

(b) yn is-adran (4), hepgorer “, in the case of a building in England,”;

(c) hepgorer is-adran (4A);

(d) yn is-adran (5), hepgorer “, in the case of works authorised under subsection (2)(a),”;

(e) hepgorer is-adran (5A);

(f) yn is-adran (6), hepgorer “or (5A)”.”

**12.** Yn lle paragraff 145(b)(ii), rhodder—

“(ii) hepgorer “28B, 29,”;”.

**13.** Ar ôl paragraff 147, mewnosoder—

“**147A.** Hepgorer adran 86(3).”

**14.** Ym mharagraff 148—

(a) o flaen is-baragraff (a), mewnosoder—

“(za) yn is-adran (3ZA), hepgorer “in England”;”;

(b) yn lle is-baragraff (b), rhodder—

“(b) yn is-adran (4), yn lle “, 28B, 29, 44AC or 44D” rhodder “or 44AC”.”

**15.** Ym mharagraff 152(a), ar y diwedd mewnosoder—

“(vi)yn y cofnod ar gyfer adran 327ZA, hepgorer “in England”;”.

**16.** Yn lle paragraff 153, rhodder—

“**153.** Yn adran 90—

(a) yn is-adran (5), ar ôl “council of a county” mewnosoder “in England”;

(b) yn is-adran (6)(b), yn lle “29” rhodder “28A”;

(c) yn is-adran (7)(a), yn lle “sections 28 or 29” rhodder “section 28”.”

**17.** Ar ôl paragraff 154, mewnosoder—

“**154A.** Yn adran 92(2)(b), yn lle “29” rhodder “28A”.”

**18.** Hepgorer paragraff 155(f).

**19.** Ym mharagraff 158, yn lle is-baragraff (b) rhodder—

“(b) ym mharagraff 2, yn lle “, 44AB or 44C” rhodder “or 44AB”;”.

**20.** Ym mharagraff 161, yn lle’r geiriau o flaen y tabl rhodder—

“**161.** Mae Deddf Cynllunio a Digolledu 1991 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**161A.** Yn Atodlen 6, hepgorer paragraff 43.

**161B.** Yn Atodlen 18—

(a) hepgorer y cofnod sy’n ymwneud ag adran 29 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

(b) ar ôl y cofnod sy’n ymwneud ag adran 29(5) o Ddeddf Draenio Tir 1991 mewnosoder—”.

**21.** Ar ôl paragraff 196, mewnosoder—

“*Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 (p. 55)*

**197.** Mae Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

**198.** Yn adran 102—

(a) yn is-adran (3), yn lle’r geiriau o “after subsection (2)” hyd at y diwedd rhodder “in subsection (2), after “preserving” insert “or enhancing””;

(b) yn is-adran (4)—

(i) o flaen paragraff (a) mewnosoder—

“(za) in subsection (1), after “preserving” insert “or enhancing”;”;

(ii) yn lle paragraff (b) rhodder—

“(b) in subsection (2), after “preserving” insert “or enhancing”.”

**199.** Yn adran 103—

(a) hepgorer is-adrannau (3) i (6);

(b) hepgorer is-adran (10)(b) ac (c);

(c) hepgorer is-adran (12)(a) ac (c).

**200.** Hepgorer adran 105(3) a (4).”

**22.** Yn Atodlen 14, Rhan 3, ar ôl paragraff 11, mewnosoder—

“*Hysbysiadau diogelu adeilad yn Lloegr: digolllediad*

**12.** Nid yw diddymu adran 105(4) o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 gan baragraff 200 o Atodlen 13 i’r Ddeddf hon yn effeithio ar

weithrediad parhaus yr arbediad a wneir gan yr adran honno, ac nid yw diddymu adran 29 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 gan baragraff 116 o'r Atodlen honno, nac unrhyw ddarpariaeth arall yn yr Atodlen honno ychwaith yn effeithio ar ei weithrediad parhaus."

*Enw*
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad